# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 19 Hydref 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Arian i Weithredu Penderfyniad y Cynulliad ar Ddigartrefedd

**C5 Christine Humphreys:** A yw'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi ystyried neilltuo digon o arian i sicrhau y caiff y penderfyniad a wnaethpwyd gan y Cynulliad ar 20 Mehefin ar ddigartrefedd ei roi ar waith yn effeithiol? (OAQ7191)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau:** Yn dilyn y penderfyniad, cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan yng Nghymru' fis Awst. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod rhaid i awdurdodau lleol asesu'r angen am dai â chymorth a thai ychwanegol, wrth ystyried ceisiadau am grant tai cymdeithasol a / neu grant refeniw tai â chymorth.

Pan fydd angen prosiectau cyfalaf newydd, tai ar gyfer pobl ifanc, er enghraifft, gellir cynnwys cynigion o'r fath yng nghynigion awdurdodau lleol am y rhaglen grant tai cymdeithasol, a byddai'n disodli cynlluniau eraill. Yr awdurdod lleol sydd i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer y cynlluniau grant tai cymdeithasol. Rhoddir sylw i lefel y nawdd ar gyfer digartrefedd yng nghynigion y gyllideb ddrafft.

### Trosglwyddo Stoc Dai (Sylwadau gan Gymdeithasau Tai)

**C9 Geraint Davies:** Pa sylwadau y mae Edwina Hart wedi'u cael gan gymdeithasau tai ynghylch y canllawiau ar gyfer trosglwyddo stoc dai? (OAQ7124)

**Edwina Hart:** Ar 7 Medi cyhoeddwyd y canllawiau drafft ar drosglwyddo tai ar gyfer ymgynghori. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 27 Hydref. Dim ond un ymateb a dderbyniwyd gan gymdeithasau tai hyd yn hyn.

### Ariannu y bydd ei angen i ddod â Digartrefedd yng Nghymru i ben

**C10 Nick Bourne:** Pa amcangyfrifon sydd wedi'u gwneud o'r ariannu y bydd ei angen i ddod â digartrefedd yng Nghymru i ben? (OAQ7077)

**Edwina Hart:** Cyhoeddodd y Cynulliad adroddiad Paul Bevan, sydd ar secondiad, o'r enw 'Cysgu allan yng Nghymru' fis Chwefror 2000. Yr oedd yr adroddiad yn archwilio'r amcangyfrif o'r angen yn fanwl ynghyd â'r cyflenwad o wasanaethau ar lefel awdurdod lleol.

Pennwyd bod £3.6 miliwn ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon i awdurdodau lleol ddatblygu gwell dulliau gweithredu strategol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd ac mae cyllideb y mudiadau gwirfoddol sydd yn gweithio gyda'r digartref—adran 180 Deddf Tai 1996—wedi codi i £1.85 miliwn, er mwyn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad Bevan.

### Cysyniad *Foyer* (Dadansoddiad Manwl)

**C11 Janet Davies:** Beth yw hynt dadansoddiad manwl Edwina Hart o'r cysyniad *foyer*? (OAQ7193)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad wedi gweithio'n agos â'r Ffederasiwn *Foyer* yng Nghymru er mwyn datblygu agwedd 'gwnaethpwyd yng Nghymru' ar gyfer *Foyer*. Mae dau *Foyer* pwrpasol cyntaf Cymru—yn Abertawe ac yn Wrecsam—ill dau wedi cael ychydig o broblemau rheoli yn ystod eu camau cynnar. Mae'r Cynulliad wedi adolygu trefniadau *Foyer* Abertawe.

Drwy weithio gyda'r Ffederasiwn *Foyer*, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector gwirfoddol ehangach ac awdurdodau lleol, yr wyf wedi ceisio sicrhau y datblygir yr arferion gorau oll ym maes tai â chymorth ac y caiff hyn ei hybu wrth ddatblygu F*oyer*.

### Is-ddeddfau Newydd ar gyfer Bro Morgannwg

**C12 Loraine Barrett:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar hynt yr is-ddeddfau newydd ar gyfer Bro Morgannwg? (OAQ7087) *Trosglwyddwyd i gael ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae'r cynigion sydd yn ymwneud â gwahardd cŵn, symud baw cŵn, a chŵn ar dennyn yn berthnasol mewn dros 100 o leoliadau ym Mro Morgannwg. Yn dilyn gwrthwynebiadau gan drigolion lleol, mae swyddogion yn ceisio cael gwybod am ardaloedd eraill sydd yn addas ar gyfer cŵn.

### Cyfyngiadau i'r Adolygiad o Fformwla yr Asesiad Gwariant Safonol

**C13 Elin Jones:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad byr ar y cyfyngiadau i'r adolygiad o fformwla yr asesiad gwariant safonol? (OAQ7111)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn bwriadu cynnal dadl ar y materion hyn yn ddiweddarach y mis hwn.

### Newidiadau Arfaethedig i'r Categorïau o Bobl Ddigartref (Ymateb i'r Ymgynghori)

**C14 Peter Black:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar yr ymateb i'r ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i'r categorïau o bobl ddigartref y rhoddir blaenoriaeth iddynt? (OAQ7043) [R]

**Edwina Hart:** Ym mis Awst 2000, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru bapur ymgynghori ar y cynnig i ymestyn y categorïau o bobl ddigartref, yn ôl blaenoriaeth eu hangen am lety dan adran 189 Deddf Tai 1996. Gofynnwyd am ymatebion erbyn 2 Hydref 2000. Derbyniwyd tri deg a thri ohonynt, ac maent yn cael eu gwerthuso'n fanwl ar hyn o bryd.

Mae archwiliad dechreuol o'r ymatebion yn awgrymu nad oes materion sylfaenol yn codi sydd yn effeithio ar yr is-ddeddfwriaeth, sydd yn cael ei drafftio ar hyn o bryd.

### Gwaith y Cyngor Partneriaeth

**C15 Huw Lewis:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar waith y Cyngor Partneriaeth? (OAQ7103)

**Edwina Hart:** Mae'r Cyngor Partneriaeth wedi cael chwe chyfarfod hyd yn hyn, gan gynnwys un yn Wrecsam ac un yn Hwlffordd. Cytunodd ar y cynllun partneriaeth gyda llywodraeth leol, sydd yn darparu fframwaith clir a chynhwysfawr i'r Cynulliad a llywodraeth leol gydweithio dros bobl Cymru. Goruchwyliodd ddatblygiad fformwla gyllido newydd ar gyfer llywodraeth leol, fformwla y mae gennym gryn gytundeb arni erbyn hyn a lansiodd y cysyniad o gytundebau polisi rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol.

Dadleuodd yn gryf ac yn agored ar rai o'r problemau mawr sydd yn wynebu llywodraeth yng Nghymru, gan gynnwys rhoi'r rhaglenni cyllido Ewropeaidd ar waith a dyfodol awdurdodau addysg lleol. Mae hyn wedi arwain at gydweithio rhwng llywodraeth leol a'r Cynulliad ar feysydd allweddol fel hybu iechyd a lles, ac yn fwy diweddar, at leihau'r bwlch ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r gweithgorau a'r grwpiau swyddogion a sefydlwyd dan nawdd y Cyngor Partneriaeth hefyd wedi gweithio'n adeiladol ar Gwerth Gorau, ar greu uned ystadegau llywodraeth leol, ar gyllid llywodraeth leol ac ar foderneiddio llywodraeth leol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Teuluoedd sydd yn Byw mewn Tai o Safon Isel**

**C16 Helen Mary Jones:** Pa wybodaeth sydd gan Edwina Hart am nifer y teuluoedd sydd yn byw mewn tai o safon isel ledled Cymru o ganlyniad i renti annheg? (OAQ7115)

**Edwina Hart:** Ni chaiff gwybodaeth am safon tai yn ôl lefelau rhent ei chadw'n ganolog. Fodd bynnag, dengys ffigurau Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998 fod cyfanswm o 35,200 o gartrefi yn sectorau tai rhent preifat a chymdeithasol yn anaddas.

**Penderfyniad y Cynulliad ar Ddigartrefedd**

**C17 Michael German:** Pa gamau y mae Edwina Hart yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod penderfyniad y Cynulliad ar ddigartrefedd ar 20 Mehefin yn cael ei roi ar waith yn effeithiol? (OAQ7190) ***Tynnwyd yn ôl***

**Un Llais i Siarad ar ran Cynghorau Tref a Chymuned**

**C18 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae Edwina Hart wedi'u cael gyda Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol a Chymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru ar y posibilrwydd o gael un llais i siarad ar ran cynghorau tref a chymuned? (OAQ7120)

**Edwina Hart:** Cyfarfu Peter Law â chynrychiolwyr Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol a Chymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru sawl gwaith y llynedd. Yr wyf wedi lleisio fy marn wrthynt ynghylch pwysigrwydd cael un corff cynrychiadol yng Nghymru i fod yn llais cryf ar ran cynghorau tref a chymuned, er mwyn hwyluso deialog gyda'r Cynulliad a rhoi mwy o gyngor a chefnogaeth. Croesawaf y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn o ran sefydlu'r Fforwm Cynghorau Lleol sydd yn dod â'r mudiadau hyn at ei gilydd a gobeithiaf yr ystyrir hyn yn ddechrau symudiad at un corff i Gymru-gyfan a fydd yn cynrychioli pob cyngor tref a chymuned yng Nghymru.

**Monitro'r Goblygiadau i Waith Awdurdodau Lleol ym maes Hawliau Dynol**

**C19 Brian Hancock:** Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r goblygiadau i waith awdurdodau lleol ym maes hawliau dynol yn dilyn rhoi Deddf Hawliau Dynol 1998 ar waith? (OAQ7118)

**Edwina Hart:** Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod ei benderfyniadau a'i weithredu'n cyd-fynd â'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn lleihau'r risg bod rhywun yn dwyn achos yn eu herbyn am dorri'r hawliau hyn.

**Strwythurau Cynghorau Lleol (Trafodaethau gyda Chynrychiolwyr Llywodraeth Leol)**

**C20 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae Edwina Hart wedi'u cael gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol ynghylch strwythurau cynghorau lleol? (OAQ7104) ***Tynnwyd yn ôl***

**Fformwlâu Cyllido ar Wahân ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol ac Ysgolion**

**C21 Jonathan Morgan:** A wnaiff Edwina Hart sefydlu fformwlâu cyllido ar wahân ar gyfer awdurdodau addysg lleol ac ysgolion? (OAQ7056)

**Edwina Hart:** Mae rhan 6 papur y Cabinet 'Simplfying the System: Local Government Finance in Wales', y papur yr ydym yn ymgynghori arno hyd ddiwedd Rhagfyr, yn codi'r cwestiwn o drefniadau

cyllido AALLau ac ysgolion. Bydd y Cabinet eisiau ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn rhoi datganiad ar y mater hwn.

**Datblygu Polisi Trosglwyddo Stoc Wirfoddol ar gyfer Cymru**

**C22 David Lloyd:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar yr ymgynghori a fu â chymdeithasau tai a chyrff eraill sydd â diddordeb mewn datblygu polisi trosglwyddo stoc gwirfoddol ar gyfer Cymru? (OAQ7125)

**Edwina Hart:** Ar 7 Medi cyhoeddwyd canllawiau drafft trosglwyddo tai ar gyfer ymgynghori i gymdeithasau tai a grwpiau eraill oedd â diddordeb yn y maes. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 27 Hydref.

**Adolygiad o'r Fformwla Asesiad Gwariant Safonol**

**C23 David Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud tuag at sicrhau bod data cywir yn cael ei gasglu fel rhan o'r adolygiad o'r fformwla asesiad gwariant safonol? (OAQ 7112)

**Edwina Hart:** Mae'r Is-grwp Dosbarthu wedi ystyried barn y Cynulliad, a leisiwyd yn y cyfarfod llawn ar 5 Gorffennaf, ynghylch bod angen casglu'r data a fydd yn galluogi archwiliad llawn o'r holl argymhellion adolygiad gwreiddiol Prifysgol Abertawe/Pion Economics o'r fformwla. Mae'r Is-grwp Dosbarthu wedi cyflwyno argymhellion yn ei adroddiad olaf y dylai awdurdodau lleol gasglu data gwasanaethau cymdeithasol ar sail wardiau o Ebrill nesaf ymlaen, a bydd hynny'n caniatáu i'r Is-grwp Dosbarthu ystyried yn 2002-03 a all sail i fformwla newydd ddeillio o'r data hwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

**Cadw System Lywodraethu drwy Bwyllgor**

**C24 Jenny Randerson:** A wnaiff Edwina Hart ystyried rhoi'r dewis i awdurdodau unedol Cymru allu cadw system lywodraethu drwy bwyllgor? (OAQ7108) ***Tynnwyd yn ôl***

**Mesurau Newydd i Wella Atebolrwydd a Thryloywder mewn Llywodraeth Leol**

**C25 Huw Lewis:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar sut mae'r mesurau newydd i wella atebolrwydd a thryloywder mewn llywodraeth leol yn gweithio? (OAQ7102)

**Edwina Hart:** Rhoddaf ddatganiad maes o law.

**Cymorth Mandadol ar Dreth Tafarnau Pentref**

**C26 David Davies:** A wnaiff Edwina Hart argymell rhoi cymorth mandadol ar dreth tafarnau pentref yn ystod yr adolygiad o'r system gyllido llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ7085)

**Edwina Hart:** Mae papur ymgynghori Cabinet y Cynulliad 'Simplifying the System: Loca Government Finance in Wales' yn nodi y byddwn yn ystyried ymestyn cwmpas y cynllun lliniaru'r dreth mewn ardaloedd gwledig ar gyfer mathau eraill o fusnesau gwledig gan gynnwys tafarndai a gorsafoedd petrol pentrefi. Bydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cael cyfle i ystyried hyn ymhellach, yn sgîl yr ymatebion a dderbyniwyd. Fodd bynnag, mae'r cynllun lliniaru'r dreth mewn ardaloedd gwledig wedi'i gorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i'w newid.

**Ymateb i'r Ymgynghori ar Fformwla Cyllido Llywodraeth Leol**

**C27 Peter Black:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar yr ymateb i'r ymgynghori ar fformwla cyllido llywodraeth leol? (OAQ7042) [R]

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn bwriadu cynnal dadl ar gynnig i gymeradwyo'r fformwla asesiad gwario safonol yn ddiweddarach y mis hwn.

### Dyfodol Grantiau Tai ac Anabledd yng Nghymru

**C28 Brian Gibbons:** A all Edwina Hart ddweud wrthym beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dyfodol grantiau tai ac anabledd yng Nghymru? (OAQ7041)

**Edwina Hart:** Amlinellodd Papur Gwyrdd diweddar y Llywodraeth ar dai nifer o argymhellion ar gyfer newidiadau i adfywio'r sector preifat gan gynnwys grantiau adnewyddu tai. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried yr ymateb i'r cynnig hwn o du awdurdodau lleol Cymru a grwpiau sydd â diddordeb ym maes tai a byddwn yn penderfynu sut y dylid eu datblygu yng Nghymru fel rhan o'r Strategaeth Dai Genedlaethol. Ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau i gyflwyno newidiadau i grantiau cyfleusterau i'r anabl yng Nghymru.

### Casglu Data sydd yn Seiliedig ar Wardiau

**C29 Rhodri Glyn Thomas:** Pryd bydd data sydd yn seiliedig ar wardiau yn cael ei gasglu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru? (OAQ7121)

**Edwina Hart:** Mae cynllun ystadegau blynyddol y Cynulliad, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf, yn nodi bod datblygu data ar gyfer ardaloedd bach yn flaenoriaeth. Mae gwaith yn bwrw ymlaen mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i wella'r broses o gasglu a chyfrifo data ar lefel rhanbarthau etholiadol ar gyfer mesurau ystadegol amrywiol.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyhoeddi mynegrif newydd amddifadedd lluosog Cymru a datblygu'r fformwla asesiad gwariant safonol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Nodir y cynnydd yn y cynllun blynyddol nesaf. Bydd sicrhau bod data ar sail ardaloedd bach ar gael ar gyfer Cymru hefyd yn uchel ar agenda Uned Ddata newydd Llywodraeth Leol Cymru.

### Pwerau sydd wedi'u Datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol

**C30 Jocelyn Davies:** A yw Edwina Hart yn parhau i gynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y pwerau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000? (OAQ7116)

**Edwina Hart:** Yr unig agwedd ar roi Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar waith sydd yn gofyn am drafodaeth o'r fath yw ehangu pwerau'r Cynulliad i newid gofynion statudol awdurdodau lleol i gynhyrchu cynlluniau. Yr ydym ar drywydd hyn a byddaf yn trafod unrhyw gynigion â'r Ysgrifennydd Gwladol neu ei Weinidog maes o law.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Ystyried Anghenion Plant

**C7 Helen Mary Jones:** Beth y mae Sue Essex yn ei wneud i sicrhau bod cynlluniau trafnidiaeth leol yn ystyried anghenion plant? (OAQ7164) ***Tynnwyd yn ôl***

### Trafodaethau â'r Dirprwy Brif Weinidog

**C8 David Davies:** Pa drafodaethau y mae Sue Essex wedi eu cael â'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch yr argyfwng tanwydd diweddar? (OAQ7094)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Yr wyf wedi siarad â'r Arglwydd Macdonald, sydd wedi bod yn delio â'r argyfwng tanwydd ac, fel y gwyddoch, mae Prif Weinidog Cymru yn aelod o'r Tasglu Tanwydd. Yr wyf hefyd wedi cynnull cyfarfod arbennig o'r Fforwm Trafnidiaeth ar gyfer ystyried y problemau strwythurol sydd wrth wraidd yr argyfwng, sydd yn effeithio'n arbennig ar Gymru. Yr oedd cynrychiolwyr o'r ddau undeb amaethwyr, o gwmni olew ac o gwmni dosbarthu bwyd yn y cyfarfod ac yr oedd Brynle Williams a dau o'i gyd-brotestwyr yn cynrychioli'r protestwyr. Mae adroddiad yn cael ei lunio, a fydd yn adlewyrchu amrywiaeth barn a chanfyddiadau'r grŵp hwn, anfonaf gopi at yr Arglwydd Macdonald yn fuan. Rhoddaf gopi yn y Llyfrgell.

**Cynlluniau Trafnidiaeth Leol**

**C9 Peter Black:** Sawl cyngor lleol sydd wedi cyflwyno cynllun trafnidiaeth leol i'r Cynulliad? (OAQ7046) R

**Sue Essex:** Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cyflwyno'u cynlluniau trafnidiaeth lleol. Mae copi o bob un yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Yr wyf yn dra ddiolchgar i bob awdurdod am yr ymdrech a roddwyd i gwblhau'r cynlluniau mewn da bryd, yn enwedig ac ystyried faint o alw sydd ar eu hamser.

**Gweithredu Strategaeth Bio-màs yng Nghymru**

**C10 Kirsty Williams:** Pa gamau a gymerwyd i weithredu strategaeth bio-màs yng Nghymru? (OAQ7202) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Ystyrir hyn yng nghyd-destun fframwaith ddrafft ynni strategol y Cynulliad, ar ôl derbyn yr adroddiad ar yr astudiaeth bresennol ar adnoddau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Caiff yr astudiaeth ei gwneud gan gonsortiwm dan arweiniad Sustainable Energy Cyf ac mae'n ceisio nodi a dadansoddi'r cyfleoedd y gall ynni adnewyddadwy eu cynnig i Gymru. Mae cyfnod yr astudiaeth rhwng Gorffennaf 2000 a 10 Tachwedd 2000, pan gaiff yr adroddiad terfynol ei wneud.

**Trafnidiaeth Arall ar gyfer Rownd Derfynol Cwpan yr FA**

**C11 William Graham:** A wnaiff Sue Essex sicrhau y trefnir trafnidiaeth effeithiol arall ar ddiwrnod Rownd Derfynol Cwpan yr FA, sy'n cael ei chwarae yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, pan fydd y prif reilffordd i Gymru ar gau oherwydd gwaith peirianyddol yn Nhwnnel Hafren? (OAQ7200)

**Sue Essex:** Ni phenderfynwyd yn ffurfiol a gaiff Rownd Derfynol Cwpan yr FA ei chynnal yn Stadiwm y Mileniwm ai peidio. Mae Railtrack yn ymwybodol y byddai'r digwyddiad yn cyd-daro â'u gwaith cynnal a chadw hanfodol yn Nhwnnel Hafren, sydd wedi'i drefnu yn ystod penwythnosau Ebrill a Mai 2001, ond maent wedi cadarnhau y bydd eu peirianyddion yn ystyried aildrefnu eu gwaith ar ôl derbyn cadarnhad gan yr awdurdodau chwaraeon.

**Cwmnïau Trafnidiaeth Gyhoeddus a Chynhwysiant Cymdeithasol**

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Sue Essex roi adroddiad ar y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus yn ystyried cynhwysiant cymdeithasol wrth gynllunio'u gwasanaethau yng Nghymru wledig? (OAQ7165) ***Tynnwyd yn ôl***

**Awdurdodau Lleol a'u Strategaethau Gwaredu Ysbwriel**

**C13 Jocelyn Davies:** A wnaiff Sue Essex roi adroddiad cryno ar unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael gydag awdurdodau lleol ynghylch eu strategaethau gwaredu ysbwriel? (OAQ7160) ***Tynnwyd yn ôl***

**Strategaeth Bio-màs yng Nghymru**

**C14 Mick Bates:** Pa gamau a gymerwyd i weithredu strategaeth bio-màs yng Nghymru? (OAQ7172)
*Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Michael German:** Ystyrir hyn yng nghyd-destun fframwaith drafft ynni strategol y Cynulliad, ar ôl derbyn yr adroddiad ar yr astudiaeth bresennol ar adnoddau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Caiff yr astudiaeth ei gwneud gan gonsortiwm dan arweiniad Sustainable Energy Cyf ac mae'n ceisio nodi a dadansoddi'r cyfleoedd y gall ynni adnewyddadwy ei gynnig i Gymru. Mae cyfnod yr astudiaeth rhwng Gorffennaf 2000 a 10 Tachwedd 2000, pan gaiff yr adroddiad terfynol ei wneud.

### Strategaeth Bio-màs yng Nghymru

**C15 Michael German:** Pa gamau a gymerwyd i weithredu strategaeth bio-màs yng Nghymru? (OAQ7187) ***Tynnwyd yn ôl***

### Gwella'r System Drafnidiaeth yn Ne Cymru

**C16 Jonathan Morgan:** Sut mae Sue Essex yn bwriadu gwella'r system drafnidiaeth yn ne Cymru? (OAQ7071)

**Sue Essex:** Pecynnau trafnidiaeth integredig yw'r allwedd ar gyfer cyflwyno polisi trafnidiaeth integredig y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o'r adnoddau grant trafnidiaeth sydd ar gael ar gyfer 2000-01 ar y prosiectau hyn; dyrannwyd tua £18 miliwn yn ne Cymru.

Yn benodol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i weld cydweithio traws ffiniol rhwng awdurdodau lleol o ran darparu atebion trafnidiaeth ac mae wedi cefnogi tri chonsortiwm yn ne Cymru—consortiwm Integredig Teithiau Cyflym De Cymru, consortiwm Trafnidiaeth Integredig De-orllewin Cymru a'r Integreiddiad Trafnidiaeth yng nghonsortiwm Rhanbarth Economaidd Gwent. Derbyniwyd ceisiadau am grant trafnidiaeth 2001-02 ac maent yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Disgwyliaf gyhoeddi fy mhenderfyniad ar dro'r flwyddyn.

### Diogelwch Cerddwyr ar hyd yr A44

**C17 Nick Bourne:** Pa argymhellion a dderbyniodd Sue Essex oddi wrth Asiantaeth Cefnffyrdd Gorllewin Cymru ynglŷn â diogelwch cerddwyr ar hyd yr A44? (OAQ7073)

**Sue Essex:** Cynhaliwyd cyfarfod ar 3 Hydref rhwng cynrychiolwyr o'r asiantaeth, y Cynulliad Cenedlaethol ac Ysgol Uwchradd Newydd Penweddig yn Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, a grwpiau eraill sydd â diddordeb. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd ar raglen o fesurau diogelwch ar y ffordd ar yr A44 ger mynedfa'r ysgol. Ysgolion Newydd Penweddig Cyf fydd yn talu am bron i holl gostau rhaglen y gwaith, bwriedir gorffen y prosiect cyn i'r ysgol agor yn y flwyddyn newydd.

### Asesiad ar Gynlluniau Trafnidiaeth Leol

**C18 David Lloyd:** A wnaiff Sue Essex adrodd ar unrhyw asesiad a wnaed ar gynlluniau trafnidiaeth leol? (OAQ7163) ***Tynnwyd yn ôl***

### Cymhorthdal ar gyfer Gwasanaethau Bws mewn Ardaloedd Trefol a Gwledig

**C19 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan Sue Essex ar gyfer cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i roi cymhorthdal i wasanaethau bysiau mewn ardaloedd trefol a gwledig? (OAQ7047)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad yn darparu £5 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ariannol hon dan y grant cymhorthdal bysiau, i'w galluogi i roi hwb i'r nifer a'r amrywiaeth o wasanaethau bysiau lleol sydd yn cael cymhorthdal yng Nghymru. Mae hyn ar ben y £10 miliwn mae awdurdodau'n gwario'n flynyddol o'u cyllidebau eu hunain ar gymorthdaliadau bysiau. Bydd £3 miliwn o'r £5 miliwn hwn yn cael ei wario ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, a chaiff y £2 miliwn sydd yn weddill ei wario ar wasanaethau gwledig neu drefol yn ôl disgresiwn yr awdurdodau.

Caiff y penderfyniadau ar gyllido'r cynllun grant cymhorthdal bysiau ar gyfer y flwyddyn nesaf ei wneud yn ystod rownd cynllunio'r gyllideb.

**Strategaethau ar gyfer Gwaredu Gwastraff**

**C20 Gareth Jones:** A yw Sue Essex wedi cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol ynglŷn â strategaethau ar gyfer gwaredu gwastraff? (OAQ7161) ***Tynnwyd yn ôl***

**Rheoleiddio Gwasanaethau Gwagio Carthbyllau**

**C21 Janet Davies:** A oes gan Sue Essex unrhyw gynlluniau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gwagio carthbyllau? (OAQ7169) ***Tynnwyd yn ôl***

**Ateb Effeithiol ynghylch Cau'r Brif Reilffordd i Gymru**

**C22 William Graham:** A wnaiff Sue Essex sicrhau y caiff ateb effeithiol ei roi ynglŷn â chau'r brif reilffordd i Gymru, oherwydd gwaith peirianyddol yn Nhwnnel Hafren, ar y diwrnod y bydd Rownd Derfynol Cwpan yr FA yn cael ei chwarae yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd? (OAQ7171)

**Sue Essex:** Ni phenderfynwyd yn ffurfiol a gaiff Rownd Derfynol Cwpan yr FA ei chynnal yn Stadiwm y Mileniwm ai peidio. Mae Railtrack yn ymwybodol y byddai'r digwyddiad yn cyd-daro â'u gwaith cynnal a chadw hanfodol yn Nhwnnel Hafren, sydd wedi'i drefnu yn ystod penwythnosau Ebrill a Mai 2001, ond maent wedi cadarnhau y bydd eu peirianyddion yn ystyried aildrefnu eu gwaith ar ôl derbyn cadarnhad gan yr awdurdodau chwaraeon.

**Datblygu Safleoedd Tir Llwyd yng Nghymru**

**C23 Christine Gwyther:** A all Sue Essex wneud datganiad ar ddatblygiad safleoedd tir llwyd yng Nghymru? (OAQ7074)

**Sue Essex:** Mae Argraffiad Cyntaf (Ebrill 1999) Canllawiau Cynllunio (Cymru): Cynllunio Polisi, yn pwysleisio pwysigrwydd cefn gwlad ac mae'n egluro y dylai safleoedd tir llwyd, lle bynnag fo hynny'n bosibl, gael eu datblygu yn hytrach na meysydd tir glas. Ar hyn o bryd, yr wyf yn adolygu canllawiau cynllunio a bydd angen i ni ystyried, ymysg pethau eraill, a ddylid cryfhau'r polisïau presennol, o ran defnyddio safleoedd tir llwyd.

Mae'r astudiaeth a gomisiynwyd gan y Cynulliad i gynghori ar ymarferoldeb sefydlu system i fonitro cyflenwi ac ail-ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn y gorffennol, yn cyflwyno adroddiad yn fuan. Bydd yn helpu i oleuo'r adolygiad hwn.

**Diogelu Cofebion Hanesyddol yng Nghonwy**

**C24 Christine Humphreys:** Pa gamau y mae Cadw yn eu cymryd i sicrhau bod cofebion hanesyddol yng Nghonwy yn cael eu diogelu? (OAQ7173)

**Sue Essex**: Cadw sydd yn diogelu cofebion sydd dan ofal y wladwriaeth drwy raglen warchod a chynnal a chadw, ac mae'n cymryd camau i geisio sicrhau eu diogelwch ffisegol. Yn dilyn achosion o fandaliaeth yng Nghonwy, nad effeithiodd ar henebion hanesyddol yn unig, ond a effeithiodd ar gastell Conwy a

waliau'r dref hefyd, mae Cadw wedi derbyn cyngor yr heddlu ac wedi codi clwyd a ffens o gylch yr ardaloedd sydd yn agored i ddifrod ac wedi cymryd camau diogelwch addas fel trefnu cloeon. Mae Cadw wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r heddlu a grwpiau gweithredu lleol i archwilio ffyrdd lle gall gwyliadwriaeth cymuned gyfrannu at ateb i'r broblem.

**Cyfyngu ar y Defnydd o Beledi Plwm ar gyfer Saethu**

**C25 Glyn Davies:** Pa gamau y mae Sue Essex yn eu cymryd i gyfyngu ar y defnydd o beledi plwm ar gyfer saethu yng Nghymru ar yr un sail ag yn Lloegr? (OAQ7081)

**Sue Essex:** Yr wyf yn ystyried a ddylid cyflwyno rheoliadau i gyfyngu ar ddefnyddio peledi plwm yng Nghymru, a gobeithiaf wneud cyhoeddiad am y ffordd ymlaen fis nesaf.

**Cyfyngu ar y Defnydd o Beledi Plwm (Trafodaethau)**

**C26 Glyn Davies:** Pryd oedd y tro diwethaf i Sue Essex drafod cyfyngu ar y defnydd o beledi plwm gyda Chymdeithas Saethu Targedau Clai Cymru? (OAQ7078)

**Sue Essex:** Cafodd fy swyddogion gyfarfod â grwpiau sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys Cymdeithas Saethu Targedau Clai Cymru, ar 4 Gorffennaf. Bydd y farn a leisiwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw yn helpu i fy ngoleuo wrth feddwl am y ffordd ymlaen.

**Sicrhau bod Cynlluniau Trafnidiaeth Leol yn Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol**

**C27 Pauline Jarman:** Beth mae Sue Essex yn ei wneud i sicrhau bod cynlluniau trafnidiaeth leol yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol? (OAQ7162) ***Tynnwyd yn ôl***

**Paratoi ar gyfer Unrhyw Argyfwng Petrol yn y Dyfodol**

**C28 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd ar gael i baratoi ar gyfer unrhyw argyfwng petrol yn y dyfodol? (OAQ7106) ***Tynnwyd yn ôl***

**Rheoleiddio Gwasanaethau sydd yn Cael Gwared â Charthion**

**C29 Owen John Thomas:** Sut mae gwasanaethau sydd yn cael gwared â charthion mewn carthbyllau yn cael eu rheoleiddio o safbwynt y gost i'r cwsmer? (OAQ7170) ***Tynnwyd yn ôl***

**Nodiadau Cyngor Technegol ynglŷn â Gwaith Glo Brig**

**C30 Huw Lewis:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ar y gwaith o lunio'r nodiadau cyngor technegol mewn perthynas â gwaith glo brig? (OAQ7184)

**Sue Essex:** Disgwylir cyhoeddi Polisi Cynllunio Mwynau Cymru erbyn diwedd Ionawr 2001. Bydd y ddogfen yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â chloddio glo brig. Cyhoeddir y nodyn cyngor technegol manwl ynghylch glo, a fydd yn ategu hwn, ar gyfer ymgynghori tua'r un pryd. Bydd grwpiau sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y nodyn drafft cyngor technegol ynghylch glo.